

## Pencampwyr Llanhari



Tîm Siarad Cyhoeddus Ysgol Llanhari yn dathlu llwyddiant ysgubol y tîm eleni eto! Mae'r 'Dream Team' a enillodd y wobr y llynedd, sef Gwynfor Dafydd o flwyddyn 11, Nia Oatley, ein prif ferch, o flwyddyn 13, a Luke Fletcher wedi dod â'r darian yn ôl drachefn i Lanhari.



Bu Rhiannon Williams (canol yn y llun), disgybl yn y 6ed dosbarth, yn cystadlu yn ei gornest gyntaf fel oedolyn ar Chwefror y 9fed yn Hwlfordd. Ym Mhencampwriaeth 'South Midlands Championships'. Cafodd sawl gornest fuddgoliaethus a aeth a hi i'r rownd gyntaf derfynol.

## Merched y Wawr Cangen y Garth

Nos Fercher, 12ed Chwefror, er gwaetha'r tywydd gwlyb a gwyntog, daeth criw da ynghyd i Festri Bethlehem, Gwaelod y Garth i wrando ar Judith Jones yn sôn am ei gyrfa a'i gwaith yn creu a darparu gwisgoedd ar gyfer y cyfryngau.

Cawsom weld lluniau o ffrogiau priodas, ei menter gyntaf yn dylunio a chreu dillad. Rhannodd Judith ambell i gyfrinach am ei gwaith fel meistres y gwisgoedd ar gyfresi megis Ryan a Ronnie, Fo a Fe a Phobl y Cwm. Yn sgil sefydlu S4C bu'n brysur iawn, a bu llawer o chwerthin wrth weld gwisgoedd ar gyfer cyfres diwedddara Caryl. Mae'n amlwg bod cymeriadau Val a Jo Jo wedi bod yn dipyn o sialens!

Hyfryd oedd gweld Gwenni, wyres fach Judith, yn gwisgo ffrog fedydd a wnaeth Mam-gu yn arbennig ar ei chyfer. Diolch o galon Judith am noson ddifryd a diddorol.

## Stormydd a Llifogydd



Er fod yr ardal wedi osgoi y gwaethaf o'r llifogydd daeth y gwyntoedd i achosi difrod gan gynnwys dymchwel y goeden yma yn Heol y Parc, Pentyrch, achosodd nifer o dai yn yr ardal i gollu eu cyflenwad trydan am gyfnod.

## Tymor y Gwanwyn yng Nghanolfan Gartholwg



Cwmni Theatr Arad Goch  
**BLE MAE'R DAIL YN HEDFAN**  
Sadwrn, 22/03/2014, 12pm, £6/£20 (Tocyn teulu)  
Sioe Gymraeg i blant 2+



Theatr Bara Caws — **DROS Y TOP**  
Iau, 10/04/2014, 7:30pm, £9 / £8  
Rifw yn nodi dechrau'r Rhyfel Byd Iaf



**CREFFTAU PASG I'R TEULU**  
Sadwrn, 5/04/2014

£15 (Plentyn Iaf), £10 (2il blentyn), £5 (3ydd plentyn)  
Boned / Het Pasg: 10am-12pm neu 12:30pm-2:30pm  
Cupcakes Pasg: 10am-12pm neu 12:30pm-2:30pm  
Addas i blant 5+ a'u teuluoedd



Cwrs: **MWYHAU LLENYDDIAETH**  
(dyddiad newydd)

Mercher, 2/04/2014, 2pm



Am wybodaeth bellach

**Canolfan Gartholwg - 01443 219589**

[www.gartholwg.org](http://www.gartholwg.org) [llreception@campwsgartholwg.org.uk](mailto:llreception@campwsgartholwg.org.uk)



Facebook-Gartholwg Lifelong Learning Centre



Twitter@gartholwgllc

## Ysgol Heol- y - Celyn



Daeth anrheg Nadolig i'r teulu Walters, Gilfach Goch, ar Rhagfyr 12 - Verity, merch i Gareth a Lindsey, wyres i Dawn a Brian ac wrth gwsr chwaer i Esmay



### Ymweliad â Chanolfan Addysg Dŵr Cymru

Ddydd Iau Chwefror 6ed a dydd Gwener Chwefror 7fed gwnaeth Blwyddyn 5 a 6 ymweld â Chanolfan Addysg Dŵr Cymru yng Nghilfynydd. Thema'r dosbarthiadau am y tymor yw 'Troi a Llifio' ac roedd nifer o weithgareddau diddorol i gefnogi dysgu'r plant i'w wneud yng Nghilfynydd. Dysgodd y ddau ddsbarth am y Cylchred Dŵr a hefyd am fywyd y creaduriaid sydd yn byw ym mhyllau dŵr ac yn yr afon Taf! Diolch yn fawr iawn i'r Ganolfan Addysg a hefyd i'r athrawon a ddaeth ar yr ymweliad.

### Cystadleuaeth Rygbi 7 bob ochr yr Urdd:

Ddydd Iau Ionawr 22ain gwnaeth tîm rygbi'r ysgol gystadlu yng nghystadleuaeth rygbi 7 bob-ochr yr Urdd ar gaeau chwarae Upper Boat. Roedd nifer o frwydrau ffyrnig ar y cae trwy gydol y dydd ac fe enillodd Heol-Y-Celyn dwy gêm allan o bedwar. Yn anffodus roedd nifer o dimau cryf yno ac fe gollodd y tîm y ddwy gêm arall. Serch hynny mwynheuodd pawb y dydd. Llongyfarchiadau i'r holl dîm a diolch yn fawr i'r rhieni a ddaeth i gefnogi'r tîm.

### Ymweliad â Chastell Caerffili

Mae'r Cyfnod Sylfaen wedi ymweld â Chastell Caerffili'r tymor yma fel rhan o'i thema. Roedd pawb yn gyffrous tu hwnt ar gyfer yr ymweliad. Dysgodd y plant nifer o bethau am hanes y Castell ac fe ddysgodd y plant sut byddai byrddau wedi cael eu paratoi ar gyfer gwledd yn yr hen ddyddiau. Diolch mawr i Jocelyn, sef marsial y Castell am addysgu'r plant am

## CREIGIAU

Gohebydd Lleol:  
Nia Williams  
029 20890979

### Anrhegion Gŵyl Sant Ffolant!

Bydd Chwefror 14eg yn ddyddiad i'w drysori am byth i Siân (Edwards gynt) ac Anna (MacDonald gynt). Llongyfarchiadau Siân a Martin ar enedigaeth Seth Isaac yn gynnar fore Gwener y 14eg lan 'sha Caernarfon bell, brawd bach i Elsa. Mae Byron a Morwen wrth eu boddau.

A'r un llongyfarchion a dymuniadau da i Anna ac Aled Rogers wrth iddyn nhw groesawu Nel i'r byd yn hwyrach yr un diwrnod! Bydd Mabli Haf yn chwaer fawr ofalus a balch iddi! Mae Jenny a Mike MacDonald yn hynod hapus i groesawu un fach arall i'r 'clan'!

### Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf á Lynn a Maureen Watkins a'r teulu ar farwolaeth drasig o ifanc Elgan, efaill Huw, a brawd Gareth a Stacey. Bu farw Elgan ar ddiwrnod ola mis Ionawr ac fe gynhaliwyd yr angladd yng Nghapel y Wenallt ar y 14eg o Chwefror. Yn meddwl amdanoch.

hanes y Castell.

### Wythnos Gymreig ac Eisteddfod yr ysgol

Mae'r holl ysgol wedi bod yn dathlu Cymreictod yr wythnos hon. Mae'r disgyblion wedi bod yn gweithio'n brysur trwy gydol yr wythnos yn creu amrywiaeth o waith celf deniadol, ysgrifennu storiâu creadigol a hefyd ysgrifennu barddoniaeth. Caiff y plant gyfle i berfformio eu gwaith o flaen plant yr ysgol yn Eisteddfod yr ysgol. Mae'r Cyfnod Sylfaen yn dathlu eu heisteddfod nhw ar Chwefror 21ain a bydd Cyfnod Allweddol 2 yn cynnal eu heisteddfod ar 7fed o Fawrth. Bydd plant y Cyfnod Sylfaen hefyd yn mynd i berfformio eu gwaith i aelodau o'r gymuned leol yng Nghae Glas ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi.

## TONYREFAIL

Gohebydd Lleol:  
Helen Prosser  
671577/prosserh@btinternet.com

### Diwrnod Hwyl y Cylch Meithrin!

Llongyfarchiadau i Bwyllgor y Cylch Meithrin ar drefnu diwrnod llawn hwyl i'r plantos. Llwydwyd i godi dros £300 a chafodd pawb amser da iawn hefyd.

### Theatr y Savoy

Ar ôl dros flwyddyn o waith adnewyddu (a llawer mwy i'w wneud!), y mae'r theatr yn agosáu at agor ei drysau i'r cyhoedd. Mae Danny Grehan yn cadeirio ymddiriedolaeth i helpu codi arian ac mae dyddiad y noson gyntaf wedi'i bennu. Bydd Peter Karrie yn cynnal noson o Ganeuon Sioeau Cerdd nos Wener, 16 Mai. Bydd yr ysgolion lleol hefyd yn cymryd rhan. Gyda newyddion trist iawn o'n cwmpas yn ddyddiol am ganolfannau diwylliannol yn cau, braf iawn fydd cael theatr yng nghanol Tonyrefail.



Holly Edwards un o ddisgyblion Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail yn helpu codi arian i'r Cylch Meithrin





# tafod elái

**GOLYGYDD**  
Penri Williams  
029 20890040

**HYSBYSEBION**  
David Knight 029 20891353

**CYHOEDDUSRWYDD**  
Colin Williams  
029 20890979

Cyhoeddir y rhifyn nesaf  
ar 1 Ebrill 2014  
Erthyglau a straeon  
i gyraedd erbyn  
20 Mawrth 2014

**Y Golygydd**  
Hendre 4 Pantbach  
Pentyrch  
CF15 9TG  
Ffôn: 029 20890040  
e-bost  
pentyrch@tafelai.net

*Tafod Elái ar y wê*  
<http://www.tafelai.net>



**Argraffwyr:**  
Gwasg Morgannwg  
Castell Nedd SA10 7DR  
Ffôn: 01792 815152

*Ariennir yn rhannol gan  
Lywodraeth Cymru*

Gwasanaeth addurno,  
peintio a phapuro

**Andrew Reeves**

Gwasanaeth lleol  
ar gyfer eich cartref  
neu fusnes

**Ffoniwch**

**Andrew Reeves**  
01443 407442  
neu  
07956 024930

I gael pris am unrhyw  
waith addurno



## CLWB Y DWRLYN

### Cinio Gŵyl Dewi

1:00 Phawn Sul, 2 Mawrth  
Clwb Golff Creigiau

### Noson Gyda Caryl Parry Jones

8yh Nos Fawrth, 15 Ebrill  
Clwb Rygbi Pentyrch

Am ragor o fanylion,  
ffoniwch: 029 20890040



### MERCHED Y WAWR

#### Cangen y Garth

**Ymweliad ag Acapela  
Pentyrch — noson o  
ddiddanwch**

yn Acapela,  
Pentyrch  
8yh Mawrth 12ed

Am ragor o fanylion,  
ffoniwch: 029 20891577



### MERCHED Y WAWR

#### Cangen Tonysguboriau

### Siân Bassett Roberts Bwydydd Cymreig

7.30yh Nos Fercher  
Mawrth 19eg  
Y Pafiliwn, Tonysguboriau

Am ragor o fanylion,  
ffoniwch: 01443 202093 /  
01443 203729

### Bore Coffi i'r dysgwyr

yng Nghaffi Leekes, Tonysguboriau,  
bob bore Gwener  
o 11 hyd hanner dydd.  
Croeso cynnes i chi  
ymuno â'r criw.



## CYLCH CADWGAN

**Myrddin ap Dafydd**  
yn darllen a thrafod ei waith

**Nos Fercher 26 Mawrth  
2014 am 8.00pm**

**Yn Y Ganolfan, Efail Isaf.**  
Cydnabyddir cefnogaeth  
Llenyddiaeth Cymru

### CO NI OFF

Ar Nos Fercher Mawrth 5ed am  
7:30, fe fydd BBC Radio Cymru yn  
recordio dwy raglen o'r gyfres  
newydd CO NI OFF, yng nghanolfan  
Gartholwg Pentre'r Eglwys. Gêm  
banel hwyliog yn llawn sbort a sbri  
yw hi

Cyflwynydd - Aled Hall  
Organydd - Rob Nicolls  
Panelwyr - Hywel Gwynfryn, Magi  
Dodd, Heledd Cynwal, Kevin  
Davies, Heledd Siôn, Aled Richards  
Bydd croeso cynnes i bawb i fod  
yn rhan o'r chwerthin  
Os am ragor o wybodaeth  
02920323131 neu e-bostiwch  
keith.davies@bbc.co.uk

### Nosweithiau i Ddysgwyr a Siaradwyr Cymaeg

**Cwis Tafarn Cymraeg – Pontypridd**  
7:30pm, 6 Mawrth, Clwb y Bont,  
Pontypridd. Cerddoriaeth werin i ddilyn  
y cwis. £4 o flaen llaw, £5 wrth y drws.  
Ffoniwch Catrin: 01443 407 570

**Noson Cawl a Chân – Pen-y-bont**  
7pm, nos Sadwrn 1 Mawrth, Tafarn yr  
Haywain, Pen-y-bont. Tocyn: £8.50 -  
sy'n cynnwys bwyd ac adloniant. I gael  
tocyn, cysylltwch â Menter Bro Ogwr:  
menter@broogwr.org / 01656 732 200,  
neu ewch i Siop yr Hen Bont. Dyddiad  
Cau: 19/02/14

**Noson sgwrsio i ddysgwyr – Radur**  
Noson sgwrsio i ddysgwyr Cymraeg  
gyda Merched y Wawr Radur. 7:30pm,  
nos Fercher, 5 Mawrth, Festri Capel  
Windsor, Radur. Cysylltwch nawr i  
gadw eich lle: Ifan: 01443 482 555 /  
ifan.dylan@decymru.ac.uk

**Noson sgwrsio i ddysgwyr – Caerdydd**  
7:30pm, nos Fawrth 13 Mai, Eglwys  
Methodistaidd Cyncoed, Westminster  
Crescent, Cyncoed, Caerdydd CF23  
6SE. Manylion: Ifan: 01443 482 555 /  
ifan.dylan@decymru.ac.uk

## LLANTRISANT GROESFAEN MEISGYN

Gohebydd y Mis:  
Ceri Morgan

### Tudalen Facebook Llantrisant

Bellach mae gan y pentref hanesyddol ar y bryn dudalen Facebook ei hun. Cafodd ei sefydlu yn ddiweddar gan yr hanesydd lleol, Dean Powell. Mae'n cael ei ddiweddarau yn wythnosol drwy gyhoeddi pytau o newyddion lleol ac mae hefyd yn son am ddigwyddiadau hanesyddol sy'n berthnasol ar ddyddiadau penodol. Yn ogystal, gallwch fwrw golwg ddyfnach ar orffennol yr hen dref drwy edrych ar hen luniau o Llantrisant a'i phobl. Ac mae cyfle hefyd, wrth gwrs, i glywed y cless diweddaraf!

### Clwb Alawon Llantrisant

I'r cerddorion rhwystredig yn eich plith, mae 'na wahoddiad i ymuno â threfnydd Clwb Alawon Llantrisant, Mike Edwards ac offerynwyr eraill yn Neuadd Caerlan sef neuadd gymunedol Llantrisant ar nos Fawrth ola'r mis. Mae'n gyfle i gyd-chwarae cerddoriaeth draddodiadol Gymreig dan arweiniad athro profiadol, a'r gost yw £2 y sesiwn.

### Croeso i Taliesin

Llongyfarchiadau mawr i Rhian a Rhodri Morris o Feisgyn ar enedigaeth mab arall. Mae Taliesin yn frawd i Gruff ac yn ail wŷr i Keith a Jen Morris hefyd o Feisgyn.

### Rhedwr ifanc Rhiwsaeson

Mae Daniel John o bentre Rhiwsaeson wedi ennill dwy ras genedlaethol yn ddiweddar. Ddiwedd Ionawr roedd Daniel yn fuddugol ym Mhencampwriaethau Athletau Cymru o dan do yn y 200m yng Nghaerdydd. Ac ar ddechrau mis Chwefror, fe hefyd oedd yn fuddugol yn Ras Traws Gwlad Ysgolion Cymru yn Aberhonddu. Mae'n amlwg bod rhedeg yng ngwaed Daniel gan bod ei fam, Helen yn hen law ar redeg marathons, ac mae ei dad Paul John yn gyn fewnwr i Bontypridd ac nawr yn hyfforddwr gyda'r Gleision. Mae Daniel yn ddisgybl ym Mlwyddyn 7 yn Ysgol Gyfun Gartholwg. Llongyfarchiadau mawr iawn i'r rhedwr ifanc.

### Gwahoddiad i ganu yn Disneyland Paris

Mae Alys Thomas o Feisgyn yn paratoi

## Nofio trwy gyfrwng y Gymraeg yn dechrau yn Rh.C.T

Wyt ti wedi colli mas ar wersi nofio neu angen dechrau o'r dechrau?

Gwersi Nofio

Dechrau: 4/3/14

Pob dydd Mawrth am 6 wythnos.

(yn rhedeg yn ystod y tymor yn unig)

Amser: 16:30-17.00 17:00-17:30

17:30-18:00

(Mae'r amser yn dibynnu ar gallu y plentyn)

Oed: 5 - 11

Pris: £18 am 6 wythnos

Am wybodaeth bellach

Helen Williams-Couch

Swyddog Datblygu Chwaraeon

helenw@urdd.org 0797600 3358

www.urdd.org

i ganu mewn cyngerdd Cymreig yn Disneyland Paris ym mis Mawrth yn dilyn ei llwyddiant ysgubol yn Eisteddfod yr Urdd y llynedd. Enillodd Alys y wobwr gyntaf yn canu yr unawd yn Eisteddfod Sir Benfro ac fel rhan o'r wobwr mae'r teulu i gyd yn mynd i Paris. Bydd y daith yma'n sicr yn brofiad bythgofiadwy i'r gantores ifanc ac mae'n argoeli fod ganddi ddyfodol canu disglair o'i blaen. Mae Alys yn ferch i Owain a Ruth Thomas ac yn chwaer i Seth. Mae hi'n disgybl yn Ysgol Gymunedol Gymraeg Llantrisant. Pob lwc, Alys!

### Swydd newydd

Llongyfarchiadau i Iolo James ar ei benodiad yn Ohebydd Abertawe gyda'r BBC. Mae Iolo yn fab i Eurof a Diane James, Llantrisant. Bu'n ddisgybl yn Ysgol Gymraeg Llantrisant a Llanhari, cyn symud i Gaeredin lle y cafodd radd mewn Hanes. Yn ddiweddar bu'n dilyn cwrs newyddiaduraeth yn y Coleg yng Nghaerdydd. Pob dymuniad da iddo i'r dyfodol.

### Capel Y Babell

Mae Capel Y Babell, Y Groes-faen wedi bod ynghau ers Nadolig 2012. Cynhaliwyd yr oedfa olaf yn y capel ym mis Rhagfyr 2012. Bu tipyn o ymgrychu i geisio ennyn diddordeb mewn cael canolfan cymdeithasol i'r pentref ar safle'r hen gapel, ond yn ofer fu'r ymdrech gan fyddai'r gost o'i brynu a'i adfer yn sylweddol iawn. Bu'r Babell yn rhan ganolog o'r pentref ers canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Er na chafwyd cadarnhad swyddogol, credir bod y capel wedi cael ei werthu i fudiad

## GILFACH GOCH

Gohebydd Lleol:  
Betsi Griffiths

### Iachad Buan

Dymuniadau gorau am iachad buan i Mary Thomson sydd wedi bod yn treulio amser yn yr ysbyty wedi iddi ddychwelyd o dreulio'r Nadolig gyda'i theulu yn Awstralia. Mary yw ysgrifenyddes y Gild a gwelir ei heisiau yn fawr iawn. Brysiau nol atom Mary.

## Cyfle i Hyrwyddo Eich Busnes

Os ydych am hyrwyddo busnes neu gymdeithas newydd cofiwch fod modd gwneud hynny am ddim drwy ychwanegu eich manylion at Gyfeiriadur Y Lolfa. Mae'r cyfeiriadur yn ymddangos yn holl ddyddiaduron Y Lolfa ac ar ein gwefan. Y cyfan sydd angen i chi ei wneud yw dilyn y ddolen yma: [www.ylolfa.com/cyfeiriadur](http://www.ylolfa.com/cyfeiriadur) a llenwi ffurflen ar-lein syml. Fel arall mae croeso i chi fy ffonio ar 01970 832304 neu ddanfôn e-bost i [sonia@yloffa.com](mailto:sonia@yloffa.com).

Mae croeso i chi hefyd wirio gwybodaeth am sefydliad sydd yn y cyfeiriadur yn barod yn yr un modd.

Sonia Hughes, [sonia@yloffa.com](mailto:sonia@yloffa.com)

Y Lolfa, Talybont, Ceredigion

SY24 5HE

crefyddol.

### Eglwys Dewi Sant, Groes-Faen

Bellach, mae'r Eglwys wedi dangos parodrwydd i gynnal a chefnogi digwyddiadau yn y gymuned leol.

Trefnwyd gwasanaeth carolau yn yr eglwys ar nos Iau, 19eg o Ragfyr, gan Gwynn Cadnant mewn cydweithrediad â'r Ficer Michael John. Mae'r ficer yn hanu o Bont-y-clun yn wreiddiol, yn gyn-ddisgybl Ysgol y Pant ac wedi dysgu Cymraeg. Roedd yn hyfryd i weld yr eglwys yn llawn a chafwyd darlenniadau a chyfraniadau gan bobl o'r gymuned leol, aelodau'r eglwys yn ogystal â'r plant.

Yn dilyn llwyddiant amlwg y fenter hon, cynhelir cymanfa ganu yn yr eglwys ar Fawrth 2ail am 5 o'r gloch, y prynhawn. Mae'n lle addas i gynnal gwasanaeth i gofio am ein nawddsant.

Gohebydd mis nesaf, Nia Donnelly

## EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:  
Loreen Williams

### Swyddi Newydd

Mae Ffion, merch Alun a Heulwen Rees, Heol Iscoed wedi penderfynu ehangu ei gorwelion ac mae wedi mynd i warchod plant gyda theulu yn Cannes yn Ffrainc. Pob hwyl i ti Ffion.

Llongyfarchiadau i Ben Williams, Penywaun sydd wedi ei benodi yn hyfforddwr oedolion mewn Celf a Dylunio yn ardal Penybont ar Ogwr. Mae Ben yn gyn-ddisgybl o Ysgol Gynradd Garth Olwg ac Ysgol Gyfun Llanhari. Bydd yn dechrau ar ei swydd ym mis Ebrill.

### Beiciwr o Fri!

Mae Wayne Williams, tad Ben yn yrrwr beic modur o fri. Yn ddiweddar bu'n llwyddiannus mewn prawf gyrru, o'r lefel uchaf, Y Gymdeithas Yrru. Erbyn hyn mae'n hyfforddi gyrwyr beiciau modur a'u cyfarwyddo mewn sgiliau arsylwi manwl.

### Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant i Eirian a Keith Rowlands ar golli mam Eirian yn ystod mis Chwefror. Bregus iawn fu ei hiechyd am fisoedd lawer ond cafodd y gofal gorau yng nghartref Tŷ Mair ger Llanelli.

### Siop y Pentre ar Werth

Tristwch mawr oedd gweld arwydd "AR WERTH" ar siop y pentre' rhyw fore Sul ar y ffordd o'r capel. Mae Owen a Joanne Morris wedi bod yn rhedeg y siop a'r Swyddfa Bost ers rhyw ddeng mlynedd. Byddwn yn gweld eisiau'r ddau yn fawr iawn. Maent yn hynod o ofalus o henoed y pentre a'r rhai sydd yn wael eu hiechyd. Mae'n braf cael taro mewn i'r siop am sgwrs gydag Owen yn y Gymraeg a hynny yn nhafodiaith Sir Benfro.

### Y TABERNACL

#### Llongyfarchion

Llongyfarchiadau i Manon Humphries a Geraint Huws ar eu dyweddiad ar Wyl y Santes Dwynwen.

Llongyfarchiadau hefyd i Eiry ac Allan Rochford ar ddod yn fam-gu a thad-cu i Mostyn, mab bach Daniel a Ffion.

### Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant i Eleri Roberts ar golli ei thad yn ddiweddar.

## PENTRE'R EGLWYS

Gohebydd Lleol:  
Emma Thompson

### Dyweddio

Llongyfarchiadau mawr i Manon Humphreys o Y Padog ym Mhentre'r Eglwys a wnaeth ddyweddio â Geraint Huws o Gaerffili ar ddiwrnod Santes Dwynwen eleni. Fe wnaethon nhw gwrdd pan oedden nhw yn fyfyrwyr ym Mhrifysgol Aberystwyth ac erbyn hyn mae Geraint yn athro yn Ysgol Plasmawr ac mae Manon yn gweithio i Gomisiynydd Gymraeg yng Nghaerdydd. Pob lwc i'r ddau ohonoch a phob hapusrwydd i'r dyfodol.

## CAPEL SALEM TONTEG

Gwasanaeth Cymraeg am 9.30 yb bob dydd Sul, gydag ysgol Sul.

Nos Iau: Dosbarth Cymraeg yn y capel am 7 o'r gloch

Nos Wener: Clwb Ieuentid yn y capel am 5.30

Nos Iau 6ed Mawrth Noson Lawen yn y Capel am 7 yh – croeso cynnes i bawb.

Ddydd Sul 6ed Ebrill GWASANAETH ARBENNIG I DDYSGWYR - brecwast am 9 o'r gloch a gwasanaeth am 9.30.

### 'Tafod y Tab'

Mae rhifyn cyntaf cylchgrawn chwarterol Y Tabernacl, "Tafod y Tab" wedi dod o'r Wasg. Mae'n cynnwys newyddion am fywyd yr eglwys, erthyglau ar bynciau diddorol a chalendr o ddigwyddiadau a chyhoeddiadau'r eglwys. Mae'n llawn lluniau lliwgar ac yn werth ei ddarllen. Diolch i'r cyfranwyr i gyd am eu cyfraniadau.

### Merched y Tabernacl

Dim ond un o'r aelodau fu'n ddigon dewr i fentro drwy'r storom o wynt a glaw i'r Coleg Cerdd a Drama ar ddydd Gwener, Chwefror 14eg. Roedd y triawd piano, fflwt a basŵn yn arbennig o dda yn ôl Elenid, a'n colled ni i gyd oedd peidio â mentro mas.

Ein cyfarfod nesaf fydd ymweliad â'r Theatr Newydd ar ddydd Iau, Mawrth 13eg i weld cyflwyniad o "Under Milk Wood". Gobeithio bydd y tywydd yn fwy ffafriol erbyn hynny!

### Rhodd ariannol

Mae aelodau'r Tabernacl yn hynod o ddiolchgar i ymddiriedolwyr capel Bryn



Yn dilyn y stormydd garw mae difrod wedi'u wneud i do Acapela a'r sgaffald yn dweud y cwbl. Mae cost talu am y gwaith atgyweirio yn y miloedd yn barod felly rydym am drefnu penwythnos o gyngherddau (Mawrth 20-23ain) gyda'r artistiaid yn cynnig eu gwasanaeth am ddim gyda'r posibilrwydd o greu cymdeithas gerdd newydd. Os ydych â diddordeb i berfformio neu'n gallu helpu i werthu tocynnau cysylltwch ag [info@acapela.co.uk](mailto:info@acapela.co.uk), neu archebwch eich tocynnau trwy'r wefan [www.acapela.co.uk](http://www.acapela.co.uk) neu dewch i fewn i Acapela i'w casglu.

Nos Wener Mawrth 14eg Darlith Gymraeg gan Dafydd Wigley am fywyd Murray the Hump (Llewelyn Morris Humphreys). Bydd elw'r noson tuag at Hosbis Plant 'Tŷ Hafan'. Braf yw cyhoeddi i ni godi £265 i Hosbis Plant Tŷ Hafan wedi'r noson trwy gyfrwng y Saesneg ym mis Ionawr.

Mawrth 20ain-23ain Cyfres o gyngherddau i godi arian i achub Acapela a chyweirio'r difrod ers y stormydd. Dewch i'n cefnogi!

Dydd Sul Mawrth 23ain Gweithdy (11yb-2.30yh neu 3.30-6yh) i helpu unrhyw gerddor i wella ei sain pan yn perfformio. Cost £10 (pris gostyngedig gan mai hwn yw diwrnod cyntaf y gweithdai. Cysylltwch am fwy o wybodaeth:

[livesoundformusicians@gmail.com](mailto:livesoundformusicians@gmail.com)

Nos Sadwrn Mawrth 29ain Noson yng nghwmni 'Brigyn' a Lowri Evans wrth iddynt berfformio yn Acapela. Mae nifer cyfyngedig o docynnau arbennig am £5 ar gael! Brysiwch neu mae'n £7.50 (o flaen llaw) £10 (wrth y drws)

Seion, Pencoed am y rhodd o £11,000 allan o werthiant yr adeilad.

### Trefn yr Oedfaon ar gyfer Mis Mawrth

Mawrth 2ail Oedfa Gymun yng ngofal Aelodau Efail Isaf

Mawrth 9fed Y Parchedig Aled Edwards

Mawrth 16eg Dr Keith Rowlands

Mawrth 23in Mr Emlyn Davies

Mawrth 30ain Oedfa Deuluol gan Lowri Roberts i ddathlu Sul y Mamau.

## Nantgarw - dechrau newydd

Ceir wyth o artistiaid yn archwilio byd y cartref, y ffigwr a cherfluniaeth mewn arddangosfa o'r enw Dechrau Newydd fydd yn agor yn Amgueddfa Crochenwaith Nantgarw ar Ddydd Gŵyl Ddewi. Mae'r arddangosfa, gan artistiaid sydd bron i gyd yn byw yn Mhrydain ond ddim i gyd yn wreiddiol o Brydain, yn pwysleisio thema'r gwanwyn ac adfywiad.

Curadwyr yr arddangosfa yw Anne Gibbs, Lowri Davies a Margo Schmidt gyda chefnogaeth Ymddiriedolaeth Crochendy Nantgarw.

Dechrau Newydd yw'r ail arddangosfa i'w threfnu gan dîm curadu Amgueddfa Crochendy Nantgarw a'r drydedd arddangosfa ers i Ymddiriedolaeth Nantgarw gymryd y cyfrifoldeb o redeg yr Amgueddfa flwyddyn yn ôl. Arddangosfa o waith Lowri Davies oedd y gyntaf.

"Mae'r arddangosfa'n pwysleisio thema'r gwanwyn a bywyd newydd, sy'n adlewyrchu'r bennod newydd yn hanes Nantgarw," meddai Lowri. "Bydd un o'r artistiaid, Deirdre Nelson sy'n byw ac yn gweithio yn Glasgow, yn arddangos casgliad o naw o blatiau gyda'r teitl 'No Bed of Roses'.

"Dyma'r tro cyntaf i'w gwaith gael ei arddangos yn Amgueddfa Nantgarw, corff o waith a ysbrydolwyd gan y casgliad o borslen Nantgarw yn yr Amgueddfa Genedlaethol a welodd yn ystod ei phreswyliaid hi ym Mhrifysgol Morgannwg, yn 2009. Yn storïau'r bobol tu ôl y casgliadau a'r gwrthrychau y mae ei diddordeb.

"Yn 'No Bed of Roses' mae hi'n canolbwyntio ar Grochendy Nantgarw, gan ddefnyddio graddfa isel llwyddiannau'r tanio – dim ond 10 y cant – i gyferbynu'r gagendor enfawr rhwng moethusrwydd y gwaith gorffenedig a'r tlodi, siom a dyfalbarhad ystyfnig y cynhyrchu."

Yr artistiaid yw:

Sun Ae Kim, Peter Bodenham, Julie Dooley, Carol Gwizdak, Wendy Houghton, Vicky Lindo, Deirdre Neilson a Sophie Woodrow.

Daw Sun Ae Kim o Dde Corea ac yn 2008 y daeth hi gyntaf i gysylltiad â'r ffordd Brydeinig o fyw ac ymddiddori yn y tsieni bach fu'n nodwedd o lawer cartref un amser a chanfod eu bod yn fynych yn bortread o fywyd bob dydd, arferion hamdden a hanes cymdeithasol. Peter Bodenham o Landudoch, Sir Benfro, yw Pennaeth y Cwrs Cerameg yng Ngholeg Sir Gâr. Yn y cyfnod wedi

i William Billingsley gynhyrchu ei borslen byd enwog yn Nantgarw bu'r teulu Pardoe am ganrif a hanner yn cynhyrchu pibelli, pibau clai a llestri i geginau'r werin. Y cyfnod hwn yn hanes y crochendy sydd o ddiddordeb ac yn ysbrydoliaeth i Peter.

Mae Carol Gwizdak yn byw yn Nantgaredig a hi yw Pennaeth y Cwrs Sylfaen mewn Celfyddyd a Chynllunio yng Ngholeg Sir Gâr. Drwy gyfrwng gemwaith mae hi'n canolbwyntio ar faterion ecolegol. "Mae ein bryd ar gasglu eiddo a thrwy hynny 'rydym yn anwybyddu pleserau syml bywyd," meddai. Mae hi'n herio gwerthoedd ein cymdeithas a'r duedd at hunan-les, gwerth materol a rhodres.

Graddiodd Julie Dooley yn ddiweddar o Brifysgol Fetropolitan Caerdydd ond yn byw nawr yn Ffrainc. Mae ei gwaith, ar ffurf powlenni, wedi datblygu'n archwiliad o batrymau, rhythmau a pharhad natur a'r tirwedd, tra bod ei lliwiau'n adleisio'r tymhorau a natur oriog yr amgylchedd.

Un arall o raddedigion diweddar Prifysgol Fetropolitan Caerdydd yw Wendy Houghton, sy'n byw ac yn gweithio yng Nghaerdydd. Adlewyrchir ceinder a symlrwydd natur yn ei gwaith gan ymestyn terfynau'r hyn ellir ei wneud gyda chlai.

Mae Vicky Lindo yn byw yn Bideford, Dyfnaint, lle mae hi'n cynhyrchu ac addurno cerameg cegin; gwaith sy'n dangos hoffter o fywydau dirgel anifeiliaid anwes a chreaduriaid y mae'n eu canfod ar y ffordd i'r gwaith, cariad at goed a'r cymylau a oleuir gan dywydd cyfnewidiol Bideford.

Cafodd Deirdre Nelson, sy'n byw yn Glasgow, ei hysbrydoli pan welodd y casgliad godidog o borslen Nantgarw yn yr Amgueddfa Genedlaethol pan oedd hi'n artist preswyl ym Mhrifysgol Morgannwg. Er yn gymharol newydd i fyd cerameg, crëodd – gyda pheth cymorth technegol - waith o harddwch arbennig tra'n archwilio'r broses o lwyddiant a methiant.

Cerfluniaeth addurniedig yw arbenigrwydd gwaith Sophie Woodrow sy'n byw ym Mryste. Dylanwadwyd arni gan natur addoliaeth oes Fictoria a'r awydd i'w adlewyrchu mewn celfyddyd ddiwygiedig ramantaidd, dderbyniol – "kitsch" i'n hoes ni! Ysbrydolir ei gwaith gan ddamcaniaethau cyfnewidiol o esblygiad ac o'r camddechongliadau daearegol enfawr Fictorianaid a'u hysfa i ddiffinio natur a chreaduriaid yng ngwisg pobol.

Agorir yr arddangosfa gan Y Cynghorydd Keith Bennett, Maer Pontypridd, ar ddydd Sadwrn, Mawrth y 1af am 3 y prynhawn a bydd yn parhau hyd Ebrill 26.

## DROS Y TOP

RIFIW YN NODI DECHRAU'R  
RHYFEL BYD 1af

Cwestiwn: "Sut ddaeth hi i hyn hogia'?"  
Ateb: Ma' 'na fai ar bawb yn rwla'n y gyflafan erchyll hon

Dim jest Leopald yn mynd ffor rong.  
Ffor' rong!

A m b o ' L e o p a l d ' d i  
m y n d . . . . . F F O O O O O O O R  
R O O O O O O O N G !!!

Ym mis Ebrill bydd Bara Caws yn teithio o amgylch Cymru yn cyflwyno rifiw newydd i nodi dechrau'r Rhyfel Mawr. Er mwyn ymgymryd â'r gwaith hwn mae'r cast wedi bod wrthi fel lladd nadroedd yn llunio sgrïpt newydd dan arweiniad y llenor adnabyddus, Aled Jones Williams.

Wrth bori drwy'r pentyrrau o lyfrau, y rhestrau o erthyglau, y casgliadau o lythyrau, a'r cyfrolau o gerddi ddaeth i law buom yn dewis a dethol y deunydd tybiwyd oedd fwyaf addas ar gyfer llunio DROS Y TOP. Mae gan bawb ei safbwynt a'i stori, ac mewn rifiw, sy'n gymharol ysgafn o ran natur, ac sy'n para ychydig dros awr, mae'n annatod mai braslun yn unig fydd yn y sioe o'r cymhlethdodau gwleidyddol dyrys oedd yn bodoli yn Ewrop ar y pryd. Yn pendilio rhwng y llon a'r lleddf, y melys a'r chwerw dyma gipolwg sydyn ar y pam, y sut, y pwy, a'r ble a ysgogodd y gyflafan waethaf a welodd Cymru ac Ewrop erioed.

Fel cwmni cymunedol 'roedd Bara Caws hefyd yn awyddus i bob cymuned y byddwn yn ymweld â hi'n cael cyfle i gyfrannu i'r sioe ar y noson y byddwn yn perfformio ynddi. Targedwyd unigolion, ysgolion a sefydliadau a chafwyd ymateb ardderchog.

Felly, pan fydd DROS Y TOP yn cael ei gyflwyno yng Ngarth Olwg nos Iau 10 Ebrill a Neuadd Llanofer, Caerdydd am 7.30pm nos Wener 11 a nos Sadwrn 12 o Ebrill, rydym yn falch iawn o groesawu SERIN sef Caitlin Hudson, Rhianna Davies a Joanne Griffiths sy'n astudio Theatr a Drama ym Mhrifysgol De Cymru ynghyd â Lloyd Meredith, sydd hefyd yn astudio gyda hwy, gyda'u cyfraniad arbennig nhw i'r sioe.

Os am ragor o fanylion cysylltwch â Cwmni Theatr Bara Caws ar 01286 676335

Cast: Gwion Aled, Rhian Blythe, Mirain Haf, Carwyn Jones, Rhodri Sion  
Cyfansoddwr a Chyfarwyddwr Cerdd:  
Osian Gwynedd

Cyfarwyddwyr: Betsan Llwyd

## PENTYRCH

Gohebydd Lleol:  
Marian Wynne

### Noson Tudur Owen

Adroddiad gan Colin Williams.

I lawer o honom, cyflwynydd radio a theledu



yw Tudur Owen. Nos Wener olaf mis Ionawr, hen noson 'lyb a diflas arall, roedd ystafell newydd Clwb Rygbi Pentyrch yn atseinio i ambell chwerthiniad gwichlyd yn gymysg â phwffian a bonllef o fogel - rhai hyd at ddagrau, arall hyd at ddeigrin.

Braf oedd gweld criw da wedi dod ynghyd ac roedd y digrifwr yn ei elfen. Mae'n gartrefol mewn clwb rygbi ac mae ei adnoddau ieithyddol yn ei alluogi i gyfathrebu'n gyfforddus. Fel y dywedodd ef ei hunan, buan y canfu beth a apeliat i ei gynulleidfa. Po isaf y lefel uchaf y gwerthfawrogiad! Ac eto mae'n ddigon hirben i wybod bod llinell i'w chael a ble mae'r llinell honno. Ymateb i gynulleidfa fyw yw ei gryfder. Mae'n bywiogi'i gynulleidfa ac mae ef ei hunan yn dod yn fyw.

Cyfeiriodd at y croeso a gai pan groesai Glawdd Offa – y Geordies yn werthfawrogol iawn o'i hiwmor. Ond roedd Pentyrch yn twymo ato wrth iddo fynd drwy'i bethe. Cawsom hanes ei fagwraeth ar fferm ac wrth gwrs ei daith gerdded nodedig, nid anenwog. Ni'm hataliwyd rhag rhannu pob manylyn parthed ei bothelli a'i rwtiadau yn y manau mwyaf tyner a phersonol. A chawsom brofi ei allu i ddywarded wrth iddo'n cyflwyno i rai o gymeriadau lliwgar tre'r Cofi. Er mai yn y de yr oeddem, mae ganddo'r ddawn honno i drosglwyddo troeon trwstan mewn tafodiaith nodedig heb gyfaddawdu'n ormodol. Os yw'r hiwmor yn ffraeth, mae'n teithio.

Llongyfarchiade i bwyllgor y Dwrlin am gynnwys Stand Yp yn y rhaglen eleni ac am ddenu personoliaeth hoffus a doniau diddanu heb eu hail, Tudur Owen, i'n plith. Noson dda!

### Dymuniadau Da

Braf deall bod Gill Griffiths yn gwella wedi iddi gael llawdriniaeth yn ddiweddar. Dymunwn yn dda i Joy Glyn hefyd yn dilyn ei llawdriniaeth hithau. Brysiwch wella.

### Gyrfa Chwist

Cynhaliodd Clwb y Dwrlin Yrfa Chwist eto eleni yn y Clwb Rygbi a chafwyd hwyl arbennig wrth i chwe bwrdd gystadlu. Enillydd y menywod oedd Carol Penri a Wyn Rees oedd yn fuddugol o blith y dynion. Yn ôl y sôn, cafwyd blas mawr ar fwyta'r ddau ffowlyn, sef y gwobrau a drefnwyd gan Jim Morris yn ôl ei arfer.

### Richard Elms

Wedi cyfnod o salwch yng nghartre'r henoed yn Nantgarw, trist yw gorfod cofnodi marwolaeth Richard Elms, y cigydd, a hynny ychydig fisoedd yn unig wedi Jenny ei wraig. Bu'r siop yn Field Terrace yn y teulu am flynyddoedd maith a Mr. Elms a'i fam yn gweithio yno. Estynnwn ein cydymdeimlad â'r teulu.

### Rhaglen Dibendraw

Mae'n siwr bod llawer ohonom wedi mwynhau y gyfres wyddonol Dibendraw ar S4C yn ddiweddar. 'Roedd yn drawiadol nodi faint o wyddonwyr o Gymru sy'n gweithio yn CERN, y sefydliad Ewropeaidd ar gyfer ymchwil niwclear, wrth iddynt geisio canfod atebion i'r cwestiwn mawr - sut ddechreuodd y bydysawd a cheisio ailgreu'r glec fawr yn y twnel anferth tanddaearol. Hwn yw'r arbrawf mwyaf yn y byd ac mae'n cael ei reoli gan y Cymro Lyn Evans, a Rhodri Jones, mab Elenid, sydd yn arwain ar offeryniaeth mesur y pelydr. Braf oedd gweld cymaint o Gymry yn chwarae rôl allweddol yn CERN yng Ngenefa.

### Genedigaethau

Llongyfarchiadau gwresog i Ffion a Daniel ar enedigaeth eu mab bach, Mostyn. Mae Mam-gu a Tad-cu, sef Eiry ac Allan Rochford wrth eu boddau gyda'u hŵyr bach cynta'.

Llongyfarchiadau hefyd i Mari Elin a Jason, Pen Maes ar enedigaeth mab bach, Noa. Mae Nia Williams yn Fam-gu hapus iawn.

Dymunwn yn dda i'r ddau deulu.

### Swydd Newydd

Llongyfarchiadau i Bethan Pickard ar ei phenodiad fel uwch - ddarlithydd ym Mhrifysgol De Cymru, Caerllion. Mae hi'n gweithio yn yr adran Therapi Celfyddydau Creadigol, gwaith sy'n cyd-redeg â'i chwrs ym Mryste lle mae'n hyfforddi i fod yn therapydd Cerdd. Pob hwyl a llwyddiant yn dy swydd newydd, Bethan.

### Murray The Hump

Ar nos Wener, Mawrth 14 bydd yr Arglwydd Dafydd Wigley yn siarad ar

## PONTYPRIDD

Gohebydd Lleol:  
Jayne Rees

### Llongyfarchiadau

Croeso mawr i Gwen, plentyn cyntaf i Lisa ac Alwyn Thomas, Stryd Llwynmadog. Wyres fach newydd i Shan a Robert Thomas, Graigwen Parc. Merched y Wawr

Dewch i wrando ar grŵp telynau dan hyfforddiant Meinir Heulyn yn Eglwys Sant Catherine nos Iau, Mawrth 13eg am 7.30 p.m. Dyma gyfle i ddatlu Gwyl Ddewi ac i helpu chwyddo coffrau Apel Eisteddfod yr Urdd Caerffili 2015. Croeso cynnes i bawb

Ym mis Ebrill fe fydd y gangen yn mynd i weld cynhyrchiad yn Theatr Gydoloes Gartholwg nos Iau, Ebrill 10 fed. Am fwy o fanylion am y ddau ddiwyddiad cysylltwch a'r ysgrifenyddes, Dilys Davies 409585 Gwobr arall!

### Gwobrwyo

Yn ddiweddar cynhaliwyd Noson Wobrwyo Y Seler yn Aberystwyth. Enillodd Osian Williams o Bontypridd wobwr am Fidio Cerddoriaeth Gorau y Flwyddyn. Roedd 3 o ffilmiau Osian ar y restr fer!

Y mis yma fe fydd Osian yn cynnal dosbarth meistr ar ran Bafta yng Nghasnewydd. Pob hwyl iti!

### Clwb Llyfrau

Nofel Gymraeg sy dan sylw mis Mawrth sef 'Dal i fynd' gan Sioned Wiliam. Byddwn yn cwrrd yng Nghlwb y Bont nos Fawrth, Mawrth 18fed am 8.00

Ym mis Ebrill cyfrol newydd gan yr awdur o Gaerdydd, Ioan Kidd. Dewch i drafod 'Dewis' nos Fawrth, Ebrill 15fed. Llyfr Saesneg yw 'r dewis ar gyfer mis Mai sef 'The Wake' gan Anna Hope.

### Penodiad

Dymuniadau gorau i Duan Evans - Pennaeth newydd Ysgol Gymraeg Pont Sion Norton. Dyma ddechrau cyfnod cyffrous yn hanes yr ysgol.

Murray the Hump yn Acapela. Bydd elw'r noson at Hosbis Plant Tŷ Hafan. 'Roedd Llewellyn Morris Humphreys, neu Murray the Hump, yn drydydd cefnder i Dafydd Wigley. Yn dilyn caracharu Al Capone, y gangster Murray the Hump oedd "Public Enemy Number 1" yn ôl yr FBI. Dylai fod yn noson ddiffyr iawn.

## Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Daeth Dr. Carwyn Jones atom nos Lun, Chwefror 17eg i sôn am Chwarae Teg – Datblygiadau Gwyddonol ym Myd Chwaraeon, gyda dau air cyntaf y teitl yn arwyddo agwedd foesol ar y newidiadau. Bu'r degawd diwethaf yn nodedig am newyddion parthed camymddygiadau ymhlith athletwyr sawl disgyblaeth, yn rychwantu camgymeriadau diniwed a gweithredoedd twyllodrus. Gwaetha'r modd, pylodd yr hen ddelwedd o gystadlu 'iach'.

Mae chwaraeon proffesiynol yn awr yn ddiwydiant rhyngwladol a felly yn agored ac yn ysglyfaeth i'r un tueddiadau ariangarol a phob dylanwad gwleidyddol a gysylltid â chynllwynion busnesau mawr global.

Erstalwm, mewn cyfnod delfrydol hwyrach, ystyrid chwaraeon yn weithgarwch hamdden ar gyfer hwyl a mwynhad. Ond cofier mai cyfrinach agored oedd bod rhai chwaraewyr rygbi amatur Cymru yn derbyn 'treuliau' go helaeth gan rai clybiau. A ydyw rhinwedd yn gyfyngedig i gylch cyllid? Oddifewn i'r cylch mae peth twyll yn dderbyniol?

Mae Dr. Jones yn aelod o staff Coleg Cenedlaethol Cymru, wedi'i leoli ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd ar safle Cyncoed. Moeseg chwaraeon yw maes ei ddi-ddordeb.

Cawsom olwg ganddo ar y newidiadu syfrdanol fu dros y blynyddoedd mewn campau yn dilyn datblygiadau technolegol, er enghraifft, yn sgîl gwybodaeth newydd ynghylch deunyddiau. Mae camp y naid polyn yn enghreifftio hyn yn dda gyda pholyn modern sy'n plygu wedi disodli'r hen bolyn unionsyth. Gwahanol iawn yw beiciau

rasio modern. Bu chwyldro mewn gwisgoedd, nid i ddilyn ffasiwn ond i beri bod proffil athletwyr yn rhagori'n aerodynamig mewn aer a dŵr.

A phwy na chlywodd am astudiaethau i newid nodweddion y corff dynol a holl helynt cyfansoddion gwaharddedig a threfn profion swyddogol a stranciau rhai i osgoi gofynion awdurdodau athletau? Y cyfan oll i ennill bri dan amodau cyfartal. Yn y cyswllt hwn rhoddwyd sylw i ddiffiniadau 'camp', gan gyfeirio at feddyliau Aristotles, John Stuart Mill a Wittgenstein. Anodd osgoi'r cwestiwn: Ai unigolyn naturiol sydd yma yntau rhyw creadur gwneuthuredig?

Yn ein cyfarfod nesaf (Mawrth 17eg) bydd Nia Blackwell yn ein goleuo ar Biogeocemeg rhai o lofeydd De Cymru. I orffen ein tymor (Mai 19eg) byddwn yng nghwmni un nodedig iawn. Dewch yn llw.


Neville Evans 0791 325 7371

### Lliwch y llun




## CORNEL Y PLANT

Lliwch y pethau y byddech yn  
cysylltu â Gŵyl Ddewi



### Lliwch y Faner



### Chwilair Gŵyl Ddewi

|       |       |          |               |
|-------|-------|----------|---------------|
| NON   | DRAIG | REIS     | COFIO         |
| CYMRU | SIOL  | CENHINEN | TY DDEWI      |
| DEWI  | HET   | DAFFODIL | DATHLU        |
| CAWL  | CANU  | TWMPATH  | SANT<br>BANER |

|    |    |    |   |   |    |    |    |    |    |   |
|----|----|----|---|---|----|----|----|----|----|---|
| N  | A  | H  | B | C | O  | C  | D  | C  | H  | S |
| F  | O  | R  | E | N | A  | B  | A  | D  | A  |   |
| NG | S  | N  | L | T | DD | S  | FF | E  | N  |   |
| FF | TH | W  | G | O | I  | F  | O  | C  | T  |   |
| C  | A  | N  | U | E | N  | O  | D  | U  | TH |   |
| C  | Y  | M  | R | U | P  | PH | I  | L  | A  |   |
| D  | R  | A  | I | G | T  | L  | L  | TH | P  |   |
| H  | I  | W  | L | R | O  | M  | LL | A  | M  |   |
| C  | E  | N  | H | I | N  | E  | N  | D  | W  |   |
| D  | J  | RH | S | I | W  | E  | DD | Y  | T  |   |

# Bethlehem, Gwaelod-y-garth

**Trefn yr Oedfaon** (ar y Sul am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol) :

Mis Mawrth 2014:

1af Oedfa ar ddydd Gwyl Ddewi (am 10:00 a.m.)

2il Oedfa Dewi Sant yng nghwmni'r Ysgol Sul

9fed Oedfa Gymun - Parchedig R. Alun Evans (Gweinidog)

16eg Parchedig Glyn Tudwal Jones

23ain Parchedig R Alun Evans (Gweinidog)

30ain Parchedig Jeff Williams

Mis Ebrill 2014:

6ed Rhys ab Owen

13eg Oedfa Gymun - Parchedig R. Alun Evans

18fed Oedfa Gwener y Groglith (am 10:00 a.m.)

20fed Oedfa Sul y Pasg

27ain Parchedig R Alun Evans (Gweinidog)

Mae'n debyg mai'r tywydd gwlyb a gwyntog sydd wedi bod yn mynd a'ch sylw chi dros yr wythnosau diwethaf yma. Nid yn unig mae o yna, reit tu allan i'n drws cefn ni, ond mae hefyd ar flaen pob papur newydd ac yn arwain pob rhaglen newyddion ar y radio a'r teledu. Mae 'na ffræo gwleidyddol yn ei sgil, ac arweinwyr y pleidiau gwleidyddol, er yn awyddus i gael eu gweld yn eu wellingtons a'u wedars at eu ceseiliau, yn llai parod i fod eisiau cael eu holi ynglyn a'r holl fater.

Tydi glaw a dilyw ddim yn beth newydd, ac fe wyddom ni ers dyddiau plentyndod yn yr Ysgol Sul am hanesion cyfarwydd yr Hen Destament, ac o ddyddiau yr ysgol gynradd am Gantre'r Gwaelod a Chaer Arianrhod. Fe fu yna gryn drafod yn do am gyfrifoldebau, am iawndal, am yswiriant, am ddyfodol rhai cymunedau arfordirol, am ddyfodol amaethu a thyfu bwyd, am afiechyd, am gladdu ac yn y blaen.


A do, bu yna hefyd ddyfalu a'i oherwydd i'r llyfogydd effeithio ar drigolion "yr Home Counties" yn y pen draw y gwelwyd y gyfundrefn wleidyddol yn taflu adnoddau, gan gynnwys y lluoedd arfog, i'r pair er mwyn elw mewn etholiadau ym mis Mai eleni a'r flwyddyn nesaf? Wedi'r cyfan 'roedd pobl Gwlad yr Haf dan ddŵr ers wythnosau!

Y frawddeg fwyaf trawiadol a glywais i oedd honno ar raglen Jeremy Vine ar Radio 2, fel y bu i bethau newid wedi i'r "effluent hit the affluent".

O gofio hyn, rhyw deimladau cymysg oedd gen i ar bnawn Sul yn y mis bach wrth i bedwar ohonom o'r eglwys fynd yn ein tro i'r Tabernacl, Yr Ais, Caerdydd, i baratoi paned a brechdan i'r digartref. Hyn fel y gwyr llawer ohonoch yn rhan o ymgyrch gan eglwysi Caerdydd a'r cylch i ddarparu mymryn o gysur i'r anghenus yn ein plith o Sul i Sul.


Mae'n hawdd i ni brynu'n corned biff a'n caws, ffrwythau, a llefrith i wneud te a choffi, a mynd am rhyw awran neu ddwy yn ôl y gofyn, edrych yn glen a sgwrsio hefo ambell un, gan wybod wedyn fod gen i gartref cysurus i ddychwelyd iddo, a seigiau blasus yn fy nisgwyl. A hwythau'r digartref, wedi awr o gwmmia a chynhesu yn festri'r capel, yn gorfod troi tua thref, beth bynnag fyddo'r tywydd, gan ddisgwyl yn eiddgar i ryw samariaid trugarog eraill eu hymgeleddu.

Ydi'n cydwybod cymdeithasol ni yn gysurus, neu a oes 'na fwy y gallwn, yn wir y dylem ei wneud i fod o gymorth i eraill llai breintiedig na ni - ydan ni yr "affluent" yn poeni digon am yr "effluent"



## Dyma gyfle arall i chi ennill Tocyn Llyfrau

Enillydd croesair Chwefror yw  
Mrs S Webb, Pont-y-clun



### Ar Draws

1. Adran o fyddin (7)
8. Gostyngeddwydd (7)
9. Sibwrdd (3)
10. Gair anweddaidd (3)
11. Rhagorach (7)
12. Ffrwythlon (7)
15. Anifeiliaid fferm (3)
17. Diota (4)
19. Cysurus (4)
20. Ar ôl (4)
21. Dotio (4)
22. Bwrw eira (3)
24. Un sy'n pregethu'r efengyl (7)
27. Planhigion dwyreiniol (7)
29. Ymfodyn (3)
30. Cerddeddiad (3)
31. Anrhydeddu (7)
32. Adfer (7)

### I Lawr

1. Offeryn cerdd (8)
2. Cyfieithu (5)
3. Rhodd (5)
4. Dihafal (6)
5. Edrychwch (4)

deudwch!

Cofiwch y cynhelir Ysgol Sul i'r plant bob Sul heblaw am wyliau Ysgol a hynny i gyd fynd ac amser yr oedfa am 10:30 a.m.


Cofiwch hefyd am wefan [www.gwe-bethlehem.org](http://www.gwe-bethlehem.org). Hefyd cyfrif trydar Bethlehem gyfri trydar (twitter) @gwebethlehem.

6. Ailbrofi (7)
7. Ffyddlon (4)
13. Math o flodyn (4)
14. Gwisg y meirw (4)
16. Fflangell (4)
17. Ys (4)
18. Symud o'i le (8)
19. Bach i gau drws (7)
23. Ceryddu (6)
25. Ag eira (5)
26. Tacluso (5)
27. Cyfan (4)
28. Ynfyty (4)

### Atebion i: Croesair Col

34, Pen Bryn Hendy, Yr Encil,  
Meisgyn, Pontyclun. CF72 8QX  
erbyn 18 Mawrth 2014

### Atebion Chwefror



## Ysgol Llanhari

### Bore ieithoedd Blwyddyn 9

Ar y 29ain o Ionawr cawson ni'r cyfle i ddysgu ieithoedd newydd am fore. Y brif iaith ddysgon ni oedd Pwyleg. Dysgon ni lawer o eiriau newydd fel 'lacho-tako' sy'n golygu 'wyt ti'n oce?' a chawson ni lawer o hwyl. Roedd y bore wedi ei threfnu ar y cyd gan CILT Cymru a Gweld Gwyddoniaeth i bwysleisio pwysigrwydd ieithoedd modern mewn gyrfaoedd gwyddonol. Roedd y ddau lysgennad a drefnwyd gan Gweld Gwyddoniaeth yn fyfyrwyr yn adran Beirianeg Prifysgol Abertawe. Roedd y profiad yn wych!

Gan Courtney Edwards Blwyddyn 9

### Tim Rygbi Blwyddyn 9

Ddydd Iau y 23ain o Ionawr mentrodd tîm rygbi blwyddyn naw i Gaerleon ar gyfer cystadleuaeth Cwpan Cymru, y 32. olaf.

Dechreuodd y tîm yn hyderus gyda chais cyntaf Llanhari yn dod gan Liam Bradford wrth iddo garlamu i lawr yr asgell o fewn munudau cyntaf y gêm. Gyda'r cefnwyr yn pasio'r bêl ar hyd y lein sgoriodd Liam eto, i wneud y sgôr yn ddeg i ddim ar ôl ychydig o funudau. Rhedodd Iwan Griffiths dros y llinell yn y gornel wrth i Gaerleon ddechrau bygwith. Ceisiodd Llanhari redeg y bêl allan o'n hanner ond neidiodd Caerleon ar y bêl rydd a sgorio yn y gornel. Brwydrodd Llanhari ymlaen nes i Ieuan Pring sgorio cais arall dros Lanhari. Daeth cais olaf yr hanner i Llanhari gyda Ryan Parsons yn camu heibio pawb i sgorio o dan y pyst.

Hanner amser, er gwaetha'r hyder, roedd Llanhari'n gwybod nad oedd y gêm bendant ddim drosodd. Dechreuodd yr ail hanner gyda dwylo cyflym cefnwyr Llanhari'n trosglwyddo'r bel i Liam i groesi'r llinell am gais arall i gwblhau ei hat tric o geisiau. Roedd Caerleon yn dal yn ymladd pan adawodd tacllo gwan Llanhari i'r maswr hedfan dros y llinell. Ar ôl ymateb Caerleon gwelwyd Ryan Waters yn gwehyddu rhwng amddiffynwyr Caerleon, ac yn taflu'r bêl lan i Ieuan Pring a neidiodd dros y lein am ei ail gais. Gyda munudau ar ôl, roedd buddugoliaeth ar y gorwel i Lanhari pan sgoriodd Ryan Parsons ei ail gais o dan y postyn. Roedd hi'n gêm llawn tacls mawr a thraed ysgafn. Y sgôr terfynol oedd 49-15 i Lanhari. Rydym yn barod am y rownd nesaf!

### Tîm Llanhari:

1. Thomas Mitchell (bl.9) 2. Ethan Williams (bl.9) 3. Ioan Lewis (bl.9) 4. Lew Lloyd (bl.9) 5. Owen Morgan (bl.9) 6. Lloyd Gregory (bl.8) 7. Jamie Burton (bl.9) 8. Ieuan Pring (bl.8) 9. Leon Burton (bl.8) 10. Ryan Waters (bl.9) 11. Jason Russel (bl.9) 12. Ryan Parsons (bl.9) 13. Rhys Thomas

(bl.9) 14. Liam Bradford (bl.9) 15. Iwan Griffiths (bl.9)

Gan Rhys Thomas blwyddyn 9.

### Tae Kwon Do

Mae Rhiannon Williams yn ddisgybl yn y 6ed dosbarth ac yn ymddiddori yn y grefft ymladd 'Tae Kwon Do'. Mae wedi bod yn ymarfer y grefft ers 8 mlynedd bellach ac wedi ennill gornestau mewn nifer o gystadleuthau ar hyd a lled y wlad. Mae yn ymarfer yn Radyr, Hensol a Canton a mae wedi cyrraedd safon gwregys du ail radd.

Bu yn cystadlu yn ddiweddar yn ei gornest gyntaf fel oedolyn. Digwyddodd hyn ar Chwefror y 9fed yn Hwlfordd. ym Mhencampwriaeth South Midlands Championships'. Cafodd sawl gornest fuddugoliaethus a aeth â hi i'r rownd gyn derfynol.

Yno fe gwrdodd â chyn bencampwraig y byd ac fe gollodd yn ei herbyn.

Llongyfarchiadau i ti Rhiannon, mae ymdrech yn galed yn talu'r ffordd. Dymunwn bob lwc iddi yn y dyfodol.

### Llwyddiant Siarad Cyhoeddus

Mae Adran Saesneg Ysgol Llanhari yn dathlu llwyddiant ysgubol y tîm Siarad Cyhoeddus eleni eto! Mae'r 'Dream Team' a enillodd y wobwr y llynedd, sef Luke Fletcher a Nia Oatley, ein prif ferch, o flwyddyn 13, a Gwynfor Dafydd o flwyddyn 11, wedi dod â'r darian yn ôl drachefn i Lanhari. Cafwyd llwyddiant unigol hefyd, gyda Gwynfor yn cipio'r wobwr am y Cadeirydd gorau a Nia yn cipio'r y wobwr am y bleidlais o ddiolch orau. Bu'r gystadleuaeth rhwng Ysgolion Bryncelynnog, Tonyrefail a Llanhari, yn un frwd a safonol, yn ôl yr arfer, a diolch i Ysgol Bryncelynnog am eu croeso ac i Rotari Llantrisant am y cyfle i'n pobl ifanc gystadlu. Mae'r Tîm yn edrych ymlaen at y rownd nesaf yn ysgol Pontllanfraith ddydd Iau 20fed o Chwefror. Pob hwyl iddynt!

### Dydd Gŵyl Dewi

Er y byddwn yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi dros yr hanner tymor, mae'r Adran Gynradd wedi bod yn dysgu am ein nawddsant yn yr ysgol yr wythnos hon. Daeth pawb yn llu ar Chwefror 21ain wedi gwisgo mewn gwisg draddodiadol Gymreig er mwyn cofio am Dewi Sant ac i ddathlu ein hanes a'n treftadaeth.

### Blwyddyn Newydd Tseina

Blwyddyn y ceffyl oedd hi yn Tseina eleni a chafodd disgyblion yr Adran Gynradd lawer o hwyl yn dysgu am eu traddodiadau, yn hen a newydd! Creuon ni lusernau a dreigiau yn ein gwaith crefft a blason ni fwydydd megis nŵdls a reis.

### Ymweliad Arbennig!

Estynnodd Dosbarth Dewi Draenog

## YSGOL UWCHRADD PONTYPRIDD

Gohebydd ysgol: Lauren Staple

### Taith i'r Eira

Mwynheuodd disgyblion blwyddyn 7 ac 8 daith hyfryd i Fannau Brycheiniog yn yr eira ar ddechrau mis Chwefror. Roedd y mynyddoedd yn edrych yn ysblennydd ond roedd hi'n oer iawn. Cerddodd Krzysztof Plaza, Shelby Jones, Tanwa Hasachai and Mitchell Evans gyda Mr Gronw i Fan Frynach

### Parti Santes Dwynwen

Ar 30 Ionawr cafodd yr Adran Gymraeg barti Santes Dwynwen i "sêr" blwyddyn 7. Roedd cystadleuthau i wneud cerdyn Santes Dwynwen ac i addurno teisennau. Cafodd pawb amser wrth eu bodd.

Daeth cyfnod ymarfer dysgu Miss Rebecca Jones i ben yn yr Adran Gymraeg ddiwedd mis Ionawr. Roedd aelodau'r adran a'r disgyblion wedi gwerthfawrogi ei chyfraniad yn ystod ei hamser gyda ni a rydyn ni'n dymuno'n dda iddi yn ei lleoliad newydd. Croeso mawr i Miss Ami Williams, myfyrwraig newydd o Brifysgol Fetropolitan Caerdydd a fydd gyda ni nawr tan fis Mehefin.

Hwyl fawr i Rebecca Jones a chroeso i Ami Williams.

groeso mawr i blant bach ein Cylch Meithrin yn Ionawr. Dyma'r tro cyntaf iddynt ymweld â ni ac mi oedd hi'n ymweliad llwyddiannus. Cawsant gyfle i chwarae ac i archwilio'r amrywiaeth o ardaloedd lliwgar a chyffrous sydd gennym yn y dosbarth.

### Diwrnod Santes Dwynwen

Er mwyn deall gwir ystyr cariad, daeth plant yr Adran Gynradd at ei gilydd ar ddydd Santes Dwynwen i ddathlu priodas dau o ddisgyblion Gwion Gwiwer! Miss Jefferies arweiniodd y gwasanaeth ac fe ymunodd pawb arall i dystio ac i ddathlu! Mwynheuodd y plant yn fawr, yn arbennig y parti oedd yn dilyn. Dawnsion nhw a bwyton nhw gacen priodas gyda'i gilydd yn y neuadd. Diolch yn fawr i'r staff am drefnu!

### Diolch Mrs Young

Hoffem ddiolch yn fawr iawn i Mrs Young sydd wedi bod yn gweithio gyda phlant dosbarth Gwion Gwiwer ers mis Medi. Athrawes Fro ydy Mrs Young ac mae'r plant wedi bod wrth eu boddau yn dysgu ysgrifennu stori mewn ffordd ymarferol a chyffrous. Mae Mrs Young nawr wedi mynd i weithio gyda phlant ysgolion eraill yn y Sir. Diolch yn fawr am eich holl waith Mrs Young!

## Ysgol Llanhari



Dathlu priodas  
ar ddydd Santes Dwynwen



Gwledd y briodas



Dysgu am Dewi Sant



Bore ieithoedd Blwyddyn 9



### Dathlu Dydd Gŵyl Dewi - Noson Cwis a Chân

Nos Iau, 6ed o Fawrth – Clwb y Bont, Pontypridd. Dewch i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi yng nghwmni Menter Iaith Rhondda Cynon Taf a'r Ganolfan Cymraeg i oedolion Morgannwg. Cwis â thema Cymraeg gyda digon o phice ar y mân a cherddoriaeth gwerin.

Noson yn addas gyfer dysgwyr Cymraeg a siaradwyr rhugl (Am fwy o fanylion ynglŷn â lefel y dysgwyr cysylltwch â Ifan Dylan ar : 01443 48 (2555) ifan.dylan@decymru.ac.uk Dewch yn llw!

Am fwy o wybodaeth ewch i: [www.menteriaith.org](http://www.menteriaith.org) neu dilynwch

Menter Iaith Rhondda Cynon Taf ar twitter neu facebook

### Cystadleuaeth Pobi Pasg – Canolfan Dysgu Gydol Oes Gartholwg – Dydd Sadwrn, Ebrill 5ed

Cystadleuaeth Pobi Pasg a gweithgareddau Pasgaidd i bawb i fwynhau!

Categoriâu oedran 3-6 oed a 7-10 oed

£3 y cacen i gystadlu. Dewch a'ch cacen Pasg rhwng 10:00yb a 12:00yp. Byddwn yn cyhoeddi'r enillydd am 12:30yp. Gyda beirniaid arbennig a gwobrau ardderchog!

## YSGOL UWCHRADD PONTYPRIDD



Yn yr eira ar Fan Frynach



Gwneud cerdyn ar gyfer Parti Santes Dwynwen

## Polisi iaith Clwb Rygbi Pontypridd

Mae Clwb Rygbi Pontypridd wedi gosod esiampl i glybiau eraill, ac yn wir i Undeb Rygbi Cymru, trwy fynd ati i lunio polisi iaith swyddogol ar ran y clwb.

Mae Llywodraeth Cymru yn annog

clybiau o bob math o'r byd chwaraeon i ddefnyddio mwy o'r iaith Gymraeg yn eu gweithgareddau. Mae hyn hefyd yn bolisi swyddogol ar ran Undeb Rygbi Cymru.

Mae Clwb Rygbi Pontypridd wedi cymryd y polisiau hyn o ddifrif, ac wedi gwerthfawrogi y niferoedd ymysg cefnogwyr a chwaraewyr y clwb sy'n medru'r iaith ond efallai heb gael y cyfle neu'r hyder i'w defnyddio yn fwy aml.

Yn ôl Swyddog y Wasg Clwb Rygbi Pontypridd, Guto Davies, y dull y mae'r clwb yn ei fabwysiadu wrth hyrwyddo'r iaith yw mai'n araf bach y mae mynd ymhell.

"Dy'n ni ddim mewn sefyllfa i drosi holl weithgaredd y clwb yn gyfangwbl o'r Saesneg i'r Gymraeg dros nos" meddai Davies. "Ry'n ni'n byw mewn cymuned lle mae'r Gymraeg yn draddodiadol wedi colli tir ond yn awr a'r cyfle i ad-ennill y tir hwnnw yn raddol.

"Mae addysg Gymraeg wedi ehangu yn yr ardal, a nifer fawr yn pasio drwy'r ysgolion ac yn cael gafael ar yr iaith. Y broblem enfawr wedi hynny yw nad oes cyfleoedd i ddal ati i ddefnyddio'r iaith yn naturion yn y gymuned.

"Os gallwn ni fel clwb rygbi poblogaidd yn y gymuned wneud argraff ar bobol fod y Gymraeg yno ar gyfer pawb, ac nad oes tabw i'w defnyddio fel iaith naturiol bob dydd, yna'r gobaith yw y gallwn wneud rhywfaint o gyfraniad tuag at ei hadferiad."

Mae holl aelodau tîm cyfryngau Clwb Pontypridd yn rhugl yn y Gymraeg - Swyddog y Wasg Guto Davies, y Rheolwr Digidol Owen Williams a chyflwynwyr 'Ponty TV' Carrie Toms a Ceris Davies.

Yn ystod y tymor hwn mae'r Gymraeg wedi ei chyflwyno mewn nifer o ffyrdd yng ngweithgareddau'r clwb. Mae erthyglau yn cael eu gosod ar y wefan, erthygl 'Gair i Gall' yn rhaglenni'r gemau, caneuon Cymraeg yn cael eu chwarae dros yr uchelseinydd ac



## Ysgol Gynradd Gymraeg Garth Olwg

Llongyfarchiadau mawr i Mrs Hale a'r Pwyllgor Eco am eu holl waith caled er mwyn ennill y Fanner Werdd am y 3ydd tro!



erthyglau a fideo wedi eu danfon i'r cylchgrawn wythnosol Golwg.

Mae'r clwb hefyd yn cyfrannu yn rheolaidd i raglen Gymraeg yr orsaf radio leol GTFM bob nos Fawrth, ac wrth gwrs yn rhoi eitemau misol i'r papur bro Tafod Elái.

"Does dim byd yn chwyldroadol yn y ffordd y gallwn ni hybu'r Gymraeg o fewn y clwb" medd Guto Davies. "Yn gyffredinol mae yna ewyllys da tuag at yr iaith a byddwn yn ddibynnol ar hynny i wneud i'r polisi iaith lwyddo. Y gamp fawr fydd rhoi'r hyder i'n cefnogwyr ifanc ac i'n chwaraewyr allu defnyddio'r Gymraeg yn hollol naturiol ymysg ei gilydd o ddydd i ddydd."

Am yr holl newyddion diweddaraf o Glwb Rygbi Pontypridd ewch ar y wefan: [www.ponty.net](http://www.ponty.net)

S4/C Calon Cenedl  
Heart of the Nation

Isdeitlau  
Subtitles

35 Diwrnod  
9.00  
Yn dechrau  
23 Mawrth

Corff, cyfrinachau, a llond stâd o amheuan. Cyfres ddrama newydd lle mae bob diwrnod yn cyfrit.

#35diwrnod  
s4c.co.uk